# y Pwyllgor Materion Ewropeaidd

## ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR GYFER 2006-2007

### Cyflwyniad

1. Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007.

### Aelodaeth

2. Yn ystod y flwyddyn yr aelodau oedd:

| | |
|---|---|
| Nicholas Bourne AC | Ieuan Wyn Jones AC |
| Rosemary Butler AC | Sandy Mewies AC (Cadeirydd) |
| Jeff Cuthbert AC | Jonathan Morgan AC |
| Michael German AC | Rhodri Morgan AC (Prif Weinidog) |
| Christine Gwyther AC | Rhodri Glyn Thomas AC |

### Cyfarfodydd

3. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, cynhaliodd y Pwyllgor naw cyfarfod cyhoeddus ffurfiol yng Nghaerdydd.

### Cylch gwaith a Chyfrifoldebau

4. Nodir sail statudol y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn Rheol Sefydlog 15.9.

5. Cylch gwaith y Pwyllgor yw cadw llygad:

- Ar berthynas y Cynulliad â rhanbarthau, cenhedloedd eraill a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau hynny am anghenion Cymru;

- Ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig am faterion Ewropeaidd;

- Ar ddulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan dalu sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelod Seneddol sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol;

- Ar berthynas y Cynulliad â rhanbarthau a chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac ymwneud y Cynulliad â chyrff Ewropeaidd a rhyngwladol.

6. Er mwyn hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr o Gymru yn y gwahanol sefydliadau Ewropeaidd, mae'r Rheolau

Sefydlog yn caniatáu i Aelodau Senedd Ewrop dros Gymru a chynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor wedi estyn y gwahoddiad hwn i gynrychiolwyr o Gymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

**Crynodeb o Weithgareddau'r Pwyllgor**

7. Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd ond cydnabuom fod ein cylch gwaith yn ehangach na hyn, ac anelwyd at gael cydbwysedd iawn yn ein rhaglen waith. Nid yw'r crynodeb a ganlyn yn un cynhwysfawr ond mae'n rhoi cipolwg ar ein gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad.

**Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Byd-eang**

8. Ym mis Mai, dechreuodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth ar gyfer ei adolygiad polisi; Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Byd-eang. Estynnodd y Pwyllgor wahoddiad i amryw sefydliadau ac unigolion i rannu eu safbwyntiau ar y pwnc, gan gynnwys Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru; Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Ryngwladol Cymru; Cyfarwyddwr Bagloriaeth Cymru, CBAC; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Oxfam Cymru; Canolfan Addysg Uniongyrchol De Cymru a Nicky Griffiths, myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor sydd wedi astudio Bagloriaeth Cymru, gan gynnwys cyfnod o brofiad gwaith ym Mrwsel fel cynorthwyydd i Jill Evans ASE. Drwy gyfnod o ymgynghori bu modd casglu ymatebion o bob rhan o Gymru. Am y tro cyntaf, defnyddiodd y Pwyllgor ymgynghoriad yn seiliedig ar y we wedi'i anelu at bobl ifanc yn ogystal ag ymgynghoriad ysgrifenedig. Bwriedir cyhoeddi adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ym mis Mawrth. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi trafod addysg yn y cyd-destun Ewropeaidd gyda Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

**Arian Cydgyfeirio a Chystadleurwydd yr Undeb Ewropeaidd**

9. Ym mis Medi, ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y Cynllun Gweithredu ar Arian Cydgyfeirio. Cyflwynodd Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad adroddiad ar y Ddogfen Ymgynghori ynglŷn â Rhaglenni Cydgyfeirio Cronfeydd Strwythurol 2007 - 2013 ac wedyn anfonwyd ymateb a adlewyrchodd safbwyntiau'r Pwyllgor at y Prif Weinidog. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd graffu ar Arian Cystadleurwydd ac Arian Cydgyfeirio yn ei gyfarfod ym mis Ionawr er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posibl o arian Ewropeaidd yng Nghymru.

**Ymgyrch Rhown Derfyn ar Dlodi**

10. Ym mis Ebrill cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ers Ymgyrch Rhown Derfyn ar Dlodi gan Oxfam Cymru, Cymorth Cristnogol a Rhwydweithiau Sector Rhyngwladol Cymru. Trafododd y Pwyllgor ffyrdd o annog Awdurdodau Lleol, Busnesau ac unigolion yng Nghymru i

ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg a phrosesau caffael moesegol fel mater o drefn.

**Map o Gymorth Rhanbarthol**

11. Gwnaeth y Pwyllgor fonitro'n fanwl y cyd-drafodaethau a aeth rhagddynt ynglŷn â'r Map o Gymorth Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf drwy Adroddiad y Prif Weinidog a chynhaliodd drafodaethau cyn i'r Map ddod i rym ar 1 Ionawr 2007.

**Polisi Cyfathrebu'r UE**

12. Ymatebodd y Pwyllgor i Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar ei Strategaeth Gyfathrebu ym mis Mehefin. Ystyriodd y Pwyllgor y sylw a roddir i faterion Ewropeaidd yn y cyfryngau yng Nghymru. Cafwyd trafodaethau gyda thair o'r pum Canolfan Uniongyrchol Ewropeaidd yng Nghymru er mwyn ystyried gweithgarwch cyfredol a chynllunio yn y dyfodol i hyrwyddo gwybodaeth am faterion Ewropeaidd. Bu hyn hefyd yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad i ddinasyddiaeth y cyfeirir ato uchod. Ym mis Tachwedd, trafododd y Pwyllgor ffyrdd o gyfleu materion Ewropeaidd yng Nghymru gyda Reijo Kemppinen, Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn y DU.

**Cysylltiadau Allanol**

13. Ystyriodd y Pwyllgor ddogfen strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gysylltiadau allanol sef 'Cymru a'r Byd'; gan argymell y dylid adolygu'r strategaeth hon yn flynyddol.

**Pwyllgor y Rhanbarthau**

14. Parhaodd y Pwyllgor i gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau. Mae Rosemary Butler AC a Janet Davies AC wedi rhoi adroddiadau llafar ar weithgareddau Pwyllgor y Rhanbarthau ym mhob un o'r cyfarfodydd.

**Y Prif Weinidog**

15. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Weinidog a'i swyddogion ar weithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Rhoddodd y Prif Weinidog adroddiad ysgrifenedig ym mhob un o'r cyfarfodydd, a gofynnodd yr Aelodau gwestiynau iddo yn ei gylch. Ategwyd yr adroddiad hwn gan adroddiadau cynnydd llafar a 'papurau i'w nodi' yn ôl yr angen.

**Yr Iaith Gymraeg**

16. Un o’r materion a godwyd gyda’r Prif Weinidog oedd y defnydd o’r iaith Gymraeg gyda golwg ar sefydliadau’r UE. Mae’r ieithoedd swyddogol wedi’u hysgrifennu yng Nghytuniad Rhufain a’i Gytuniadau Derbyn atodol. Nid yw’r Gymraeg yn iaith swyddogol yr UE nac yn iaith Gytuniad oherwydd nid yw’n iaith swyddogol Aelod Wladwriaethau’r Deyrnas Unedig, er gwaetha’i statws

yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a swyddogion o wahanol sefydliadau'r UE i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio'r Gymraeg ac i ymchwilio i'r materion ymarferol cysylltiedig â hynny. Mae datblygiadau wedi digwydd ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i dalu am ddarpariaeth gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd priodol. Mae bellach yn fater o recriwtio staff sydd wedi cymhwyso'n addas.

**Cysylltiadau â Sefydliadau'r UE**

17. Er mwyn meithrin perthynas ag Aelodau Senedd Ewrop, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaethau drwy gysylltiad fideo gydag Eluned Morgan ASE a Jill Evans ASE. Dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor gynnal trafodaethau yn y ffordd hon a theimlai Aelodau'r Pwyllgor ei bod wedi bod yn llwyddiannus iawn. Cafodd y Pwyllgor gytundeb, mewn egwyddor, gan Jonathan Evans ASE a Glenys Kinnock ASE ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol drwy gysylltiad fideo, ond bydd hwn yn fater i'n Pwyllgor olynol weithredu arno.

18. Ym mis Hydref anerchwyd y Pwyllgor gan Ei Ardderchogrwydd Jaakko Laajava, Llysgennad y Ffindir. Amlinellodd y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion y Ffindir ar gyfer Llywyddiaeth ar yr Undeb Ewropeaidd a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

19. Cymerodd y Pwyllgor ran yn yr ail gam prawf o'r rhwydwaith monitro sybsidiaredd, a drefnwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau. Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn awyddus i hwyluso ffyrdd o gymhwyso egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd yn well yn yr UE. Cyflwynodd y Pwyllgor ei farn ar oblygiadau rhai cynigion deddfwriaethol o ran sybsidiaredd a chymesuredd ym maes addysg a dysgu gydol oes. Mae'r rhwydwaith yn helpu i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ac awdurdodau lleol a rhanbarthol. Bydd Pwyllgor y Rhanbarthau yn cyhoeddi adroddiad ar y prosiect prawf hwn yn ystod y gwanwyn.

20. Yn ei gyfarfod olaf, cymerodd y Pwyllgor ran mewn trafodaeth, drwy gyswllt fideo, gyda'r Comisiynydd Ewropeaidd (ac Is-lywydd) Margot Wallström ar ei chyfrifoldebau am Gysylltiadau Sefydliadol a'r Strategaeth Gyfathrebu. Ymhlith y pynciau a drafodwyd 'roedd y rôl allweddol yr oedd athrawon yn ei chwarae i wella dealltwriaeth pobl ifanc o faterion Ewropeaidd, y gobaith ar gyfer cadarnhau Cyfansoddiad yr UE ac adolygiad y Pwyllgor o Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Byd-eang . Rhoddodd y Prif Weinidog wahoddiad i'r Comisiynydd Wallström i dalu ymweliad ffurfiol â Chymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a derbyniwyd y gwahoddiad.

21. Yn y cyfarfod hwn, roedd yn bleser hefyd gan y Pwyllgor groesawu Ei Ardderchogrwydd Robert Holmes Tuttle, Llysgennad yr Unol Daleithiau i'r Deyrnas Unedig. Cyflwynodd y Llysgennad anerchiad i'r Pwyllgor ar y berthynas rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau a rhoddodd neges Dydd Gŵyl Dewi ar ran yr Arlywydd George W Bush.

**Yr hyn sydd i'w drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad**

22. Hefyd yn ei gyfarfod olaf, cytunodd y Pwyllgor ar bapur ar yr hyn sydd i'w drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad; gan awgrymu materion posibl i'r Pwyllgor(au) olynol eu hystyried yn y Trydydd Cynulliad.

**Sandy Mewies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**